

Digimap for Schools

Teithiau ar y Teifi

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Teithiau ar y Teifi

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod allweddol 2	Afon: archwilio rhai tirweddau a nodweddion dynol ar hyd llwybr afon	Afon Teifi, Cymru. Gall y syniad gael ei gymhwyso ar gyfer afonydd eraill ym Mhrydain Fawr

Gwybodaeth	Defnyddio'r blwch chwilio. Ychwanegu marcwyr. Ychwanegu labeli. Darllen mapiau. Defnyddio allwedd.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Disgrifio a deall agweddau allweddol o: daeryddiaeth ffisegol, gan gynnwys afonydd a daeryddiaeth ddynol, gan gynnwys aneddiadau a defnydd tir. Defnyddio mapio digidol i leoli a disgrifio nodweddion.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Amlygu a lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau a mapiau. Amlygu a disgrifio patrymau gofodol (dosbarthiadau) lleoedd ac amgylcheddau a sut y maent wedi cael eu cysylltu.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 2-09a, 2-12a, 2-14a

Gweithgaredd

Dangoswch gyflwyniad i ddisgyblion o daith ar hyd Afon Teifi, ond sylwch fod angen i'r sleidiau fod yn gymysg a heb fod yn y drefn gywir. Gofynnwch i ddisgyblion ddefnyddio eu sgiliau map i'ch helpu i'w rhoi yn y drefn gywir.

SYLWCH: mae'r sleidiau yn y PowerPoint yn y drefn gywir, felly bydd angen i chi symud y sleidiau o gwmpas cyn i chi ddechrau. Mae'r delweddau sy'n dangos y ffynhonnell a'r aber wedi'u marcio'n glir, felly bydd y rhain yn hawdd i'w hamlygu – oni bai eich bod chi'n cuddio'r penawdau.

Cyflwyniad

Mae Afon Teifi yn ffurfio'r ffin rhwng Sir Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn ne-orllewin Cymru, ar gyfer y rhan fwyaf o'i llwybr, ac mae'n llifo i'r môr islaw tref Aberteifi ar Draeth Poppit. Ffynhonnell Afon Teifi yw Llyn Teifi, sef un o nifer o lynnoedd sy'n cael eu hadnabod ar y cyd fel Pyllau Teifi, ym Mynyddoedd Cambrian.

Mae'r afon yn llifo trwy rai o olygfeydd mwyaf hardd canolbarth a gorllewin Cymru, ac mae gan nifer o'r trefi ar hyd y llwybr gysylltiadau hanesyddol neu maent yn lleoedd poblogaidd i ymweld â nhw, ac er mwyn pysgota, canwio, cerdded neu wyllo adar.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

Dangoswch y cyflwyniad PowerPoint o daith ar hyd Afon Teifi o'i ffynhonnell i'w haber. Wrth i chi edrych ar y delweddau, byddwch yn penderfynu nad ydynt yn y drefn gywir.

Ewch trwy'r cyflwyniad beth bynnag a thrafodwch sut mae'r afon yn edrych ym mhob un o'r delweddau a sut mae'r dirwedd amgylchynol yn edrych. Mae rhai cwestiynau annog ar gael i'ch helpu chi i drafod pob lle yn nhermau tirwedd a gweithgarwch cyffredinol.


A all y disgyblion ddefnyddio eu sgiliau map i'ch helpu i'w rhoi yn y drefn gywir?

Agorwch *Digimap for Schools* a rhowch gopi o'r dalen waith *Teifi Places* i'r disgyblion. Ar ôl iddyn nhw ei chwblhau, dangoswch y cyflwyniad iddyn nhw eto a gadewch iddyn nhw eich helpu chi i aildrefnu'r sleidiau. Dyma rai cwestiynau y gallech eu gofyn:

- Ble oedd eich hoff le ar hyd yr afon a pham?
- Ble oedd hoff le'r dosbarth?

Sut oedd y dirwedd, a'r afon yn arbennig, yn newid ar hyd ei thaith i'r môr?

Mynd gam ymhellach

- Cadwch y delweddau yn y PowerPoint yn lleol a gadewch i'r disgyblion gymryd rhan trwy ychwanegu rhai o'r rhain at fap i greu map darluniadol o'r afon i'w arddangos yn yr ystafell ddosbarth. 
- Edrychwch ar yr afon yn fanylach gan ddefnyddio *Google Earth*™.
- Lluniwch 'Canllaw Afon' ar gyfer afon arall gan ddefnyddio'r ail daflen waith. Defnyddiwch ddelweddau o *Geograph*, cadwch nhw'n lleol, a'u hychwanegu at y map, neu greu cyflwyniad PowerPoint newydd.
- Chwiliwch am ychydig mwy o wybodaeth am eich hoff le ar hyd yr afon.
- Dyluniwch bamffled twristiaeth yn hysbysebu Afon Teifi fel cyrchfan ar gyfer penwythnos gweithgareddau.
- Disgrifiwch swydd rhywun sy'n gorfod gweithio ar yr afon, neu gyda'r afon bob dydd.

Dolenni ar y we

- Mae *Geograph* yn cynnwys dros 3.6 miliwn o luniau o Brydain Fawr, y gellir eu chwilio yn ôl term a lleoliad daearyddol <http://schools.geograph.org.uk/>
- *Google Earth* www.earth.google.com
- Ymddiriedolaeth Afon Teifi <http://www.teifiriverstrust.com>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013



Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D10877_cynradd
f1.0 Awst 2013


EDINA

Digimap for Schools


<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Lleoedd ar hyd Afon Teifi – gweithgaredd

Enw _____

- 1 Defnyddiwch y Blwch Chwilio i ddod o hyd i enwau'r lleoedd hyn ar fap. Ychwanegwch farciwr ar gyfer pob lle. 

Cardigan (Aberteifi) Llandysul Llyn Teifi Newcastle Emlyn (Castell Newydd Emlyn)
Poppit Sands (Traeth Poppit) Cenarth

- 2 Dewiswch y ffont, a lliw a maint y testun rydych chi eisiau, yna dewiswch . Cliciwch ar eich farciwr ac ysgrifennwch enw'r lle. Ar ôl i chi eu marcio a'u labelu ar fap, rhowch yr enwau yn y drefn gywir ar y tabl isod, o'r ffynhonnell i'r aber.

- 3 Closiwch ar bob lle ar eich map a defnyddiwch yr allwedd i'ch helpu chi i ddisgrifio rhai o'r nodweddion dynol a ffisegol yno. Rhowch y wybodaeth hon ar y tabl hefyd.

Lle	Sut le yw hwn?
Ffynhonnell:	
Aber:	

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Canllaw teithio ar yr afon

Enw _____

Enw'r afon:

Ffynhonnell

Aber

Ffynhonnell

Aber

Cyfeirnod grid

Cyfeirnod grid

Cyfeirnod grid

Cyfeirnod grid

Disgrifiad o'r dirwedd yn ffynhonnell yr afon

Disgrifiad o'r dirwedd yn aber yr afon

Lleoedd o ddiddordeb i ymweld â nhw a beth y gallech wneud yno
